

UAL Diploma in Art and Design Level 2



Yn gwyno

Bwriad y cwrs hwn yw datblygu profiadau myfyrwyr o gelf a dylunio ar gyfer y rhai hynny sy'n dymuno datblygu eu gallu a hyder cyn symud ymlaen i gymhwyster Lefel 3.

Dyma'r cwrs i chi os...

- ... Ydych yn greadigol
- ... Ydych eisiau astudio ymhellach ar ôl y cwrs hwn
- ... Ydych eisiau gyrfa ym maes celf a dylunio

Beth fyddaf yn ei wneud?

Byddwch yn creu eich gwaith eich hun ac yn archwilio ystod o brosesau newydd, megis gweithio gyda phatrymau arwyneb, pren, cerameg, metelau, print, a ffotograffiaeth. Byddwch hefyd yn edrych ar astudiaethau gweledol, ffasiwn a thecstilau, astudiaethau hanesyddol a



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

chyd-destunol. Bydd cyfleoedd i chi ymdrochi eich hun mewn lluniadu, marcio a dod o hyd i ffyrdd o gofnodi, deall a chyfathrebu gyda'r byd o'ch cwmpas.

Yn allweddol i'r cwrs mae datrys problemau drwy dasgau difyr, gan gymryd risgiau ac archwilio syniadau newydd. Bydd prosiectau ysgol a heriol yn eich herio i feddwl am sut a pham yr ydych yn creu gwaith celf. Bydd trafodaethau yn y stiwdio a'r llyfrgell gyda'ch tiwtoriaid a chyfoedion yn rhoi cyfle i chi edrych ar waith arlunwyr a dylunwyr eraill, a fydd yn ei dro yn rhoi hyder i chi siarad am eich gwaith eich hun. Byddwch yn cael digonedd o gymorth wrth ddod o hyd i ffyrdd newydd ar gyfer ymchwilio ac archwilio, y bydd pob un ohonynt yn eich helpu i benderfynu lle'r ydych chi'n ffitio a beth allwch chi ei gynnig i'r byd fel arlunydd, dylunydd neu wneuthurwr.

Mae Saesneg a Mathemateg yn rhan greiddiol o'r cwrs. Bydd myfyrwyr nad oes ganddynt y graddau angenrheidiol eto (Gradd C neu uwch) yn derbyn addysgu a chymorth ychwanegol i astudio ar gyfer naill ai TGAU neu Sgiliau Gweithredol, yn dibynnu ar eu graddau TGAU blaenorol.

Byddwch hefyd yn cael y cyfle i gwblhau heriau sgiliau Agored yn ymwneud â materion cyfredol, mentergarwch a chymunedol. Mae'r heriau yn canolbwyntio ar ddynwared senarios go iawn y mae artistiaid a gweithwyr creadigol yn aml yn gweithio arnynt yn y diwydiant.

Cewch eich asesu drwy waith cwrs a bydd eich gwaith yn cael ei gymedroli yn allanol. Unwaith y byddwch wedi'i gwblhau, byddwch yn cyflawni:

Lefel 2 mewn Celf a Dylunio

[Gweithgareddau Sgiliau](#)

[Mathemateg a Saesneg](#)

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I gofrestru ar y cwrs hwn, mae angen i chi fod ag o leiaf 4 TGAU, Gradd D neu uwch, gan gynnwys mewn un ai Mathemateg/Rhifedd neu Gymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg, neu gymhwyster Diploma Lefel 1 priodol sy'n cynnwys un ai TGAU Gradd D neu uwch mewn Mathemateg neu Gymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg.

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol, yn ogystal â pharch tuag at eraill,

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

brwdfrydedd tuag at y pwnc, gallu i gymell eich hun, gallu creadigol a dyhead i lwyddo.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae'r rhan fwyaf o'n myfyrwyr Lefel 2 yn symud ymlaen i Ddiploma UAL Lefel 3 mewn Celf a Dylunio yn Crosskeys ac yn parhau â'u taith fel arlunwyr a dylunwyr. Bydd eraill sy'n teimlo nad yw dyfodol o fewn y diwydiannau creadigol yn addas iddynt, yn teimlo ddigon hyderus i ddod o hyd i waith neu ymgymryd â rhaglen astudio arall, gan wybod bod y sgiliau trosglwyddadwy y maent wedi eu hennill ar y cwrs wedi rhoi'r arfau iddynt roi cynnig ar lwybr newydd.

Gwybodaeth Ychwanegol

Byddwch angen talu ffioedd astudio, prynu llyfrau braslunio, deunyddiau peintio a lluniadu. Gall ffioedd ar gyfer ymweliadau ag orielau a digwyddiadau fod yn daladwy hefyd drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r holl gostau'n cael eu hadolygu a gallant newid.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

